Polisi TG Athrofa Padarn Sant (APS)

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi TG APS**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	James Rodaway Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni, yr Eglwys yng Nghymru
Rhif y fersiwn:	Fersiwn 6
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	5 Medi 2025
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad rhoi mewn grym:	5 Medi 2025
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Awst 2026
Y fersiwn a ddisodlir:	Fersiwn 5
Dogfennau cysylltiedig:	Polisi Moeseg Ymchwil Padarn Sant Polisi a Gweithdrefn Cyfrifiaduron a Rhyngrwyd Corff y Cynrychiolwyr Defnydd Rhyngrwyd Preifat Priodol ym Mhadarn Sant, Caerdydd gan ymgeiswyr Ffurfiant ar gyfer Gweinidogaeth Drwyddedig Polisi Moeseg Ymchwil Padarn Sant Polisi Disgyblu Padarn Sant Polisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Hanes y Ddogfen:

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar yr adolygiadau
1	22 Mai 2019	Leon Hughes, Pennaeth Cyfathrebu a Thechnoleg	• Drafft cyntaf

2	22 Mawrth 2021	Leon Hughes, Pennaeth Cyfathrebu a Thechnoleg	• Diwygio Polisi
3	09 Mehefin 2022	Leon Hughes, Pennaeth Cyfathrebu a Thechnoleg	• Diwygio Polisi
4	30 Awst 2023	Mike Wakeman, Cyfarwyddwr TG	• Diwygio Polisi
5	9 Awst 2024	Mike Wakeman Cyfarwyddwr TG	• Diwygio Polisi
6	14 Awst 2025	James Rodaway, Cyfarwyddwr TGCh a Rhagleni	• Diwygio Polisi a diweddaru teitlau

Polisi TG Athrofa Padarn Sant (APS)

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Y Diffiniadau a ddefnyddir yn y Polisi hwn
4. Torri Amodau'r Polisi
5. Crynodeb o Ddefnydd Derbyniol
6. Defnydd Preifat o Gyfleusterau TG
7. Cydymffurfiaeth â Chyfraith Sifil a Throseddol y DU
8. Cydymffurfiaeth â Thrwyddedau Meddalwedd
9. Cyfanrwydd Systemau TG
10. Diogelwch a Chyfrinachedd Cyfrineiriau
11. Defnydd Priodol o Ddarpariaeth Rhyngrwyd
12. Ymdrechion i Osgoi Diogelwch Rhyngrwyd
13. Mynediad Academaidd i Safleoedd Amhriodol
14. Cadw Data Perifferol
15. Gwasanaethau Meddalwedd, Storio Lleol a Storio ar y Cwmwl
16. Defnyddio'r e-bost
17. Ymchwilio i Dorri Amodau'r Polisi TG
18. Monitro'r Rhwydwaith
    18.1 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

18.2 Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Monitro

18.3 Hidlo Cynnwys y We

19. Offer Fonitro DarkTrace

2. Cyflwyniad

Bwriad y polisi hwn yw darparu canllawiau ar y defnydd priodol o gyfleusterau TG a ddarperir. Mae'n cynnwys defnydd o'r cyfleusterau hynny gan staff, dysgwyr, ymwelwyr a phobl eraill a awdurdodir i'w defnyddio. Mae'r polisi yn amodol ar adolygiad blynyddol a chymeradwyaeth Bwrdd Gweithredol Padarn Sant. Mae hanes diwygio'r ddogfen ar gael ar ddechrau'r ddogfen hon.

3. Y Diffiniadau a Ddefnyddir yn y Polisi hwn

- **Gwasanaethau craidd**: Y rhwydwaith ffisegol, gan gynnwys switshis, ceblau a gweinyddion.
- **Darpariaeth rhyngrwyd**: Mae hyn yn cynnwys y rhwydwaith ceblau, wal dân a'r porth, a'r rhwydwaith diwifr.
- **Cyfarpar cyfrifiadura a ddarperir**: Mae hyn yn cynnwys yr holl gyfarpar a ddarperir gan Adran TG yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys dyfeisiau symudol, cyfrifiaduron personol a pherifferolion, gan gynnwys cyfarpar arddangos.
- **Dyfeisiau personol**: Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddyfais sy'n eiddo i ddefnyddiwr a ddefnyddir i gysylltu â gwasanaethau craidd neu i'r gwasanaethau rhyngrwyd a ddarperir.
- **Defnyddwyr**: Mae hyn yn cynnwys staff, dysgwyr ac unrhyw un arall sydd wedi'u hachredu i ddefnyddio gwasanaethau craidd neu ddarpariaeth rhyngrwyd.
- **Ffeiliau**: Mae hyn yn ymwneud â data digidol sy'n cael ei gadw ar safle neu oddi ar safle gan rwydwaith arall sydd gan yr Eglwys yng Nghymru. Nid yw'n cynnwys ffeiliau llawlyfrau.

At ddibenion y ddogfen hon, bydd yr uchod yn cael eu galw gyda'i gilydd yn "gyfleusterau TG."

4. Torri Amodau'r Polisi

Gellid ystyried achos o dorri amodau'r polisi hwn yn drosedd ddisgyblu a gellid ymdrin â'r achos dan y polisi disgyblu priodol a'i weithdrefnau cysylltiedig. Os oes trosedd wedi digwydd o dan gyfraith y DU, gellir rhoi gwybod i'r heddlu neu awdurdod priodol arall hefyd. Amlinellir ein ffordd o ymchwilio i achos neu achos honedig o dorri amodau yn adran 17.

5. Crynodeb o Ddefnydd Derbyniol

Mae'r canlynol yn berthnasol i'r holl ddefnydd o gyfleusterau TG sydd wedi'i gynnwys yn adran diffiniadau'r ddogfen hon. Mae rhai elfennau o'r adran hon yn cynnwys disgrifiadau estynedig mewn adrannau diweddarach o'r ddogfen.

5.1 Mae'n rhaid i'r holl ddefnydd gydymffurfio â'r diffiniadau sydd wedi'u cynnwys o fewn y polisi TG hwn a byddwn yn ymchwilio i unrhyw achos o dorri amodau'r polisi hwn yn unol â'r broses a amlinellir o fewn y ddogfen hon.

5.2 Anogir defnyddwyr i ddefnyddio'r cyfleuster TG i ddatblygu nodau ac amcanion eu gwaith, astudiaeth neu ymchwil ymhellach a bod yn ymwybodol bod y defnydd preifat o gyfleusterau TG yn fraint, nid hawl.

5.3 Ni chaiff defnyddwyr ddefnyddio'r cyfleusterau TG yn amhriodol.

5.4 Mae'r diffiniad o ddefnydd amhriodol yn cynnwys pob gweithgaredd anghyfreithlon, gan gynnwys y defnydd o'u cyfleusterau TG ar gyfer meddu ar neu gadw deunydd anghyfreithlon.

5.5 Mae defnydd amhriodol yn cynnwys y gweithgareddau canlynol a gall rhai ohonynt fod yn anghyfreithlon dan amgylchiadau penodol:

5.5.1 Creu, lawrlwytho, cadw, trawsyrru neu arddangos unrhyw ddelweddau, data neu ddeunydd arall sy'n dramgwyddus, aflan neu anweddus, neu unrhyw ddata a allai gael ei drin i greu delweddau neu ddeunyddiau aflan neu anweddus.

5.5.2 Creu neu drawsyrru deunydd sydd wedi'i lunio i fod yn fygythiol neu'n ymosodol, difrïol, yn amharu ar breifatrwydd rhywun arall, yn creu neu'n cynnal amgylchedd gelyniaethus ar gyfer eraill a/neu'n achosi niwed neu drallod diangen.

5.5.3 Creu, lawrlwytho, cadw, trawsyrri neu arddangos deunydd sy'n hyrwyddo neu'n annog casineb hiliol, crefyddol, gwreig-gasol neu homoffobaidd, gweithgareddau terfysgol neu droseddau casineb; neu wybodaeth gyfarwyddiadol am unrhyw weithgareddau anghyfreithlon.

5.5.4 Creu, lawrlwytho, cadw neu drawsyrru deunydd gyda'r bwriad o dwyllo.

5.5.5 Creu, lawrlwytho, cadw neu drawsyrru deunydd sy'n amharu ar hawlfraint rhywun arall.

5.5.6 Creu neu drawsyrru deunydd marchnata neu swmpus digroeso at ddefnyddwyr cyfleusterau neu wasanaethau rhwydwaith, onid yw hynny wedi'i awdurdodi a'i fod yn ymwneud â gweithgareddau academaidd neu weinyddol yr Athrofa a/neu lle mae'r deunydd hwnnw wedi'i gynnwys o fewn neu fel arall yn rhan o wasanaeth y mae'r defnyddiwr wedi dewis tanysgrifio iddo.

5.5.7 Cyflwyno unrhyw safbwyntiau a barn bersonol gan y defnyddiwr fel safbwyntiau'r Athrofa, oni bai bod y defnyddiwr wedi'i awdurdodi yn benodol i wneud hynny.

5.5.8 Gweithgareddau bwriadol neu fyrbwyll sy'n rhesymol debygol o fod â'r nodweddion neu'r canlyniadau canlynol:

- Gwastraffu ymdrech staff neu adnoddau cyfleusterau TG
- Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill neu amharu ar eu preifatrwydd
- Unrhyw ffurf ar wadu ynghylch ymosodiad ar wasanaeth
- Cyflwyno firysau, mwydod, arogli pecynnau neu feddalwedd datgelu cyfrinair
- Sganio pyrth
- Sganio gwendidau
- Ceisio cuddio hunaniaeth yr anfonwr/tarddiad cyfathrebu electronig
- Mynediad heb ei awdurdodi i'r rhwydwaith, cyfarpar anniogel neu wedi ei adael heb neb yn ei ddefnyddio neu fynediad i rannau cyfyngedig o'r rhwydwaith
- Ymelwa ar gyfarpar sydd wedi'i gyfaddawdu gan god maleisus
- Defnydd heb ei awdurdodi o fanylion mewngofnodi defnyddiwr arall
- Mynediad o bell heb ei awdurdodi i unrhyw gyfarpar drwy ddefnyddio, er enghraifft, Gwasanaethau Terfynell, VNC, Telnet neu SSH
- Ceisio cael mynediad i ddata y mae'n gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfrinachol

5.6 Gellir ond cysylltu caledwedd yn ffisegol â'r rhwydwaith os yw'n cael ei gymeradwyo neu ei osod gan yr Adran TG. Gall dyfeisiau personal gysylltu â'r rhwydwaith i ymwelwyr.

5.7 Rhoddir blaenoriaeth wrth ddefnyddio cyfleusterau TG yr Athrofa i weithgareddau dysgu a busnes sydd yn mynd y tu hwnt i ddefnydd preifat a gall yr Adran TG ail-ddyrannu adnoddau rhwydwaith, gan gynnwys lled band i ardaloedd preswyl yn ôl yr angen i gynnal swyddogaeth iawn y rhwydwaith. Byddai camau o'r fath ond yn cael eu cymryd ar ôl derbyn cymeradwyaeth awdurdodau'r Coleg a dim ond dros dro y byddai'n digwydd.

5.8 Mae camddefnyddio braint defnydd preifat yn cynnwys defnydd a fyddai'n:

- Ymyrryd â chyflawniad dyletswyddau'r Athrofa
- Ymyrryd ag unrhyw ddigwyddiad addysgu neu asesu neu weithgarwch Athrofa arall
- Amharu'n sylweddol neu effeithio'n niweidiol ar berfformiad y rhwydwaith a/neu adnoddau TG

6. Defnydd Preifat o Gyfleusterau TG

Darperir cyfleusterau TG i'w defnyddio'n unig gan staff yn unol â'u dyletswyddau cyflogaeth arferol, gan ddysgwyr mewn cysylltiad â'u haddysg a gan diwtoriaid a gwirfoddolwyr achlysurol sy'n cyfrannu at raglenni. Mae pob defnydd arall yn breifat, er enghraifft gan ddysgwyr preswyl at ddibenion hamdden.

Caniateir defnydd preifat, fel braint a ddim hawl, ond os yw'n cael ei gam-drin bydd yn cael ei ystyried fel achos o dorri amodau'r polisi hwn.

Bydd unrhyw wybodaeth neu ddata at ddefnydd preifat sy'n cael ei gadw ar gyfleusterau TG yn cael ei gadw ar fenter y defnyddiwr ei hun. Nid yw Athrofa Padarn Sant yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gyfanrwydd neu argaeledd gwybodaeth neu ddata sy'n cael eu cadw at ddefnydd preifat ac ni fydd gan ddefnyddwyr hawl mynediad at y wybodaeth neu'r data hwnnw os na all gael mynediad at gyfleusterau TG yr Athrofa mwyach.

Mae'n rhaid i'r holl ddefnydd, gan gynnwys defnydd preifat, gydymffurfio ag adran "Defnydd Priodol o Ddarpariaeth Rhyngwyd" y ddogfen hon. Bydd unrhyw ddefnydd nad yw'n torri unrhyw amod fel y cyfryw, ond sy'n dwyn anfri ar yr Athrofa, hefyd yn cael ei drin fel achos o dorri amodau'r polisi hwn.

7. Cydymffurfiaeth â Chyfraith Sifil a Throseddol y DU

Mae'n rhaid i ddefnyddwyr gydymffurfio â darpariaethau unrhyw gyfraith gyfredol yn y DU, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i:

- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 a diwygiadau Deddf Heddlu a Chyfiawnder 2006 (Rhan 5)
- Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 a diwygiadau
- Deddf Difenwi 1996
- Deddf Terfysgaeth 2006

- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018

8. Cydymffurfiaeth â Thrwyddedau Meddalwedd

Bydd defnyddwyr yn cydymffurfio â thelerau unrhyw gytundeb trwydded rhwng yr Eglwys yng Nghymru a thrydydd parti sy'n llywodraethu'r defnydd o galedwedd, meddalwedd neu fynediad i ddata.

Gall Adran TG yr Eglwys yng Nghymru ddefnyddio dulliau chwilio â llaw neu awtomatig er mwyn pennu cydymffurfiaeth â thrwyddedau meddalwedd ynghyd â thelerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o feddalwedd. Bydd angen i ddefnyddwyr sy'n cysylltu gyda chyfarpar cyfrifiadura a ddarperir yn yr amgylchedd ffisegol a rhithwir lawrlwytho meddalwedd rheoli asedau meddalwedd yn ôl cyfarwyddiadau'r Adran TG.

9. Cyfanrwydd Systemau TG

Ni chaiff unrhyw un, oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi'n uniongyrchol gan y Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni, gymryd unrhyw gamau sy'n niweidio, cyfyngu ar neu danseilio diogelwch, perfformiad, defnyddioldeb neu hygyrchedd cyfleusterau TG. Gallai "cymryd camau" gynnwys esgeuluso, lle y gellid fod wedi disgwyl yn rhesymol y byddai camau wedi eu cymryd fel rhan o ddyletswyddau defnyddiwr. Mae hefyd yn cynnwys lanlwytho firysau a maleiswedd yn fwriadol, ac unrhyw ymgais i osgoi systemau diogelwch drwy hacio neu raglennu.

Mae'n rhaid cynnal pob cysylltiad cyfarpar â chyfleusterau TG gyda manylion rhwydwaith dilys, naill ai ar ffurf ID defnyddiwr dilys neu drwy ddarparu cyfrinair dros dro gan staff Gweinyddol Padarn Sant. Os datgelir firysau neu faleiswedd niweidiol posibl arall, gallai'r Adran TG ddatgysylltu unrhyw system TG ffisegol neu rithwir a ystyrir yn risg i gyfanrwydd y cyfleusterau TG neu i ddiogelwch gwybodaeth yn y cyfleusterau hynny. Gallai'r Adran TG atal caniatâd i ailgysylltu hyd y gellir dangos tystiolaeth bod y risg wedi'i lliniaru.

Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw fynediad neu achos o ddileu neu addasu cyfleusterau TG heb awdurdod cyn gynted â phosibl i Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys mynediad gan unigolion drwy ddefnyddio manylion a roddwyd yn wreiddiol i berson arall.

Rhaid i ddefnyddwyr gydymffurfio â chyfarwyddyd gan y Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni a roddir mewn ymateb i achos honedig, neu wirioneddol, o dorri amodau diogelwch y rhwydwaith, neu dorri amodau polisi TG Padarn Sant.

Bydd gan Adran TG yr Eglwys yng Nghymru y pwerau i gymryd pob cam a bennir yn rhesymol i ddileu neu atal dosbarthiad unrhyw ddeunydd sy'n bygwth cyfanrwydd y rhwydwaith, i warchod gwybodaeth neu i ddiogelu cyflwr y cyfleusterau TG a allai gynnwys dileu mynediad i unigolion neu ddyfeisiau penodol.

10. Diogelwch a Chyfrinachedd Cyfrineiriau

Bydd defnyddwyr yn cymryd pob cam rhesymol i gynnal diogelwch cyfleusterau TG a ffeiliau y mae ganddynt fynediad iddynt. Mae'n rhaid i bob cyfrinair gydymffurfio â'r Polisi Grŵp sydd wedi'i bennu gan Adran TG yr Eglwys yng Nghymru a bydd yn rhaid ei newid fel y diffinnir yn y polisi hwnnw. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol hefyd y bydd gofynion y polisi hwnnw yn newid dros amser mewn ymateb i'r dirwedd ddiogelwch newidiol. Bydd cyfrineiriau staff a dysgwyr yn cael eu dyrannu fesul unigolyn gan Adran TG yr Eglwys yng Nghymru. Bydd cyfrineiriau mynediad dros dro â'r rhwydwaith yn cael eu haseinio gan staff gweinyddol Padarn Sant gyda manylion unigolion sydd wedi derbyn y cyfryw fynediad yn cael eu cofnodi at ddibenion monitro.

Ni chaiff defnyddiwr drosglwyddo cyfrineiriau, neu hawliau i fynediad neu'r defnydd o gyfleusterau TG, heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni. Bydd gwneud hynny heb ganiatâd yn cael ei ystyried fel achos o dorri amodau'r polisi a gall arwain at gamau disgyblu. Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw sicrhau diogelwch ei gyfrinair a dylid rhoi gwybod ar unwaith i Ddesg Gymorth TG yr Eglwys yng Nghymru am unrhyw achos o gyfaddawdu'r diogelwch hwnnw. Bydd unrhyw hysbysiad cyhoeddus o gyfrineiriau drwy ysgrifennu ar ddarnau o bapur, posteri ac ati yn cael eu hystyried yn achos difrifol o dorri amodau'r polisi, a gall arwain at achos disgybli a bydd yn cael ei ddileu ar ôl ei ganfod.

11. Defnydd Priodol o Ddarpariaeth Rhyngrwyd

Gall pob defnyddiwr gael mynediad at y gwasanaethau rhyngrwyd a ddarperir naill ai drwy'r rhwydwaith ffisegol neu drwy'r rhwydwaith di-wifr ar wahân. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro fel y trafodir yn adran 18. Mae'r rhwydwaith rhyngrwyd yn cael ei hidlo ac mae categorïau penodol o'r wefan yn cael eu hatal yn rheolaidd. Bydd ymdrechion i gael mynediad at y gwefannau hyn ar gyfarpar

cyfrifiadura a ddarperir neu ar ddyfeisiau personol sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith yn cael eu cofnodi a'u riportio.

Rhoddir gwybod am ymdrechion i gael mynediad at ddeunydd sydd wedi'i gategoreiddio yn bornograffig. O ran staff, rhoddir gwybod i Adran Adnoddau Dynol yr Eglwys yng Nghymru. O ran dysgwyr, rhoddir gwybod i Brifathro Athrofa Padarn Sant. Nhw fydd yn penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. Dylai ymgeiswyr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig hefyd gyfeirio at Ddefnydd Preifat Priodol o'r Rhyngrwyd (Adran 6) ym Mhadarn Sant, Caerdydd gan breswylwyr am esboniad pellach. Mewn achosion lle mae ymdrechion wedi'u gwneud i gyrchu deunydd sy'n anghyfreithlon dan gyfraith y DU, gan gynnwys pornograffi plant neu ddelweddau rhywiol treisgar, ystyrir y mynediad hwn yn bryder diogelwch a gellir rhoi gwybod am yr unigolyn yn uniongyrchol i'r Heddlu gan y Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni yn / neu ac ar ôl ymgynghori â'r Adran Adnoddau Dynol a/neu'r Pennaeth.

Byddwn yn rhoi gwybod yn yr un modd am ymdrechion i gyrchu deunydd sy'n cynnwys eithafiaeth wleidyddol neu derfysgaeth hefyd.

Bydd ymdrechion i gyrchu deunydd sy'n gysylltiedig â gamblo yn cael ei nodi ond byddwn ond yn rhoi gwybod am hyn os oes patrwm clir o ymdrechion i geisio cael mynediad dro ar ôl tro. Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni fydd yn penderfynu ar hyn, ond dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodoly gwelir defnydd cyson o wefannau gamblo fel mater ffurfiant.

12. Ymdrechion i Osgoi Diogelwch Rhyngrwyd

Bydd unrhyw ymdrechion i osgoi hidlyddion y rhyngrwyd drwy ddefnyddio adnoddau Rhwydwaith Preifat Rhithwir, gweinyddion dirprwyol a thechnoleg debyg yn cael eu rhwystro ac yn cael eu hystyried fel achos o dorri amodau'r polisi hwn. Cofnodir pob ymgais i ddefnyddio technoleg fel hyn y a bydd y defnyddiwr yn cael ei hysbysu bod ei ddefnydd wedi'i ddatgelu ac na chaniateir y dechnoleg. Caiff unrhyw ymdrechion pellach eu riportio fel achosion o dorri amodau'r polisi defnydd priodol o'r ddarpariaeth rhyngrwyd ac ymdrinnir â'r mater yn yr un modd ag ymdrechion i gyrchu pornograffi neu ddeunydd sy'n ymwneud ag eithafiaeth wleidyddol.

13. Mynediad Academaidd i Safleoedd Amhriodol

Cydnabyddir y bydd angen i academyddion a dysgwyr gael mynediad achlysurol i gynnwys a allai gael ei rwystro er mwyn cynnal ymchwil sydd wedi ei gymeradwyo, neu i ddeunydd a fyddai'n cael ei bennu'n amhriodol fel arfer. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid cael caniatâd ymlaen llaw drwy'r prosesau a amlinellir ym Mholisi

Moeseg Ymchwil Padarn Sant. Gall defnyddwyr wneud cais am fynediad dros dro i wefannau sydd wedi'u rhwystro drwy'r Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni. Mae'n rhaid i'r cais gael ei gefnogi gyda chadarnhad ysgrifenedig gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

Rhaid rhoi gwybod i'r adran TG yn ysgrifenedig pan nad oes angen mynediad at safleoedd 'whitelisted' bellach.

14. Cadw Data Perifferol

Bydd rhwydwaith Padarn Sant ond yn caniatáu dyfeisiau cadw ar y rhwydwaith, gan gynnwys ffyn USB, sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Adran TG a'u sganio cyn eu defnyddio. Mae hyn yn atal lanlwytho firysau neu faleiswedd yn ddamweiniol o ddyfais sydd wedi'i llygru ond, ar ôl ei chymeradwyo, gellir ailddefnyddio'r ddyfais yn y dyfodol. Cyfrifoldeb y defnyddiwr yw sicrhau bod unrhyw ddyfais a ganiateir yn rhydd o faleiswedd neu firysau ac ni chaiff unrhyw ddefnyddiwr drosglwyddo dyfais a ganiateir i ddefnyddiwr arall. Gellir defnyddio dyfeisiau cadw gydag argraffyddion, cyfrifiaduron desg a dyfeisiau nad ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r rhwydwaith.

15. Gwasanaethau Meddalwedd, Storio Lleol a Storio ar y Cwmwl

Mae dysgwyr sydd wedi ymrestru a defnyddwyr rheolaidd a awdurdodir gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn cael cyfrif Office 365 llawn. Mae hyn yn darparu gwasanaethau Office safonol, cyfrif e-bost Padarn Sant a chyfleusterau cadw ar y cwmwl. Hefyd, bydd staff yn gallu defnyddio cyfleusterau cadw lleol ac ar y gweinydd ar gyfer gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Mae'r staff TG yn gallu cael mynediad i'r holl ffeiliau a gedwir yn y lleoliadau hyn at ddibenion rheolaeth barhaus, adfer ar ôl trychineb a chynnal a chadw rheolaidd. Cynghorir defnyddwyr i beidio â chadw deunydd personol yn y lleoliadau hyn, ond os ydynt yn gwneud hynny, dylent ei gadw mewn ffolderi sydd â "Personol" wedi'i nodi'n glir arnynt.

Ni chaiff staff na dysgwyr gadw deunydd o unrhyw fath sy'n torri cyfraith y DU. Hefyd, bydd deunydd o natur bornograffig yn destun yr un mecanwaith riportio â throseddau sy'n dod o dan adran defnydd priodol o ddarpariaeth rhyngrwyd y ddogfen hon. Caiff deunydd sy'n ymwneud ag eithafiaeth wleidyddol neu derfysgaeth eu riportio yn yr un modd.

16. Defnyddio'r e-bost

Darperir cyfeiriadau e-bost i staff a dysgwyr. Mae'r e-bost hwn ar gyfer defnydd gwaith yn unig ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer gweithgarwch masnachol preifat. Ni ddylid ei ddefnyddio fel cyfeiriad cofrestru ar gyfer cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, cyfleusterau siopa ar-lein neu unrhyw adnoddau eraill sy'n debygol o arwain at weithgarwch e-bost sothach. Ni ddylai staff a dysgwyr gymryd unrhyw gamau a allai fygwth cyfanrwydd Athrofa Padarn Sant wrth ddefnyddio'r cyfrif.

Er mwyn cynnal safonau diogelu rhwydwaith a diogelu data nid oes hawl gan fyfyrwyr i drosglwyddo negeseuon yn awtomatig a danfonwyd at eu cufrif e-bost Padarn Sant at gyfeiriad e-bost personol.

17. Ymchwilio i Dorri Amodau'r Polisi TG

Ar ôl i achos o dorri amodau'r polisi gael ei riportio neu ei ddarganfod, mae gan y Cyfarwyddwr TG a Rhaglenni yr awdurdod i atal mynediad defnyddiwr i gyfleusterau TG tra'n cynnal ymchwiliad. Bydd Adran Adnoddau Dynol yr Eglwys yng Nghymru yn cael ei hysbysu pan gynhelir ymchwiliad o'r fath y i aelod o staff. Os mai dysgwr sydd dan sylw, bydd Prifathro Athrofa Padarn Sant yn cael ei hysbysu.

Bydd gan Adran TG yr Eglwys yng Nghymru y pwerau i gyrchu'r holl gyfleusterau TGCh a'r ffeiliau perthnasol ac i gymryd yr holl gamau y gellid pennu sy'n rhesymol i ddileu neu atal dosbarthu unrhyw ddeunydd sy'n torri amodau'r polisi hwn, neu i gadw gwybodaeth neu gyflwr y cyfleusterau TG at ddibenion ymchwiliad, a allai gynnwys cael gwared ar unrhyw gyfleusterau TG.

Fel rhan o gamau ymchwiliol, mae Adran TG yr Eglwys yng Nghymru yn cadw'r hawl i ofyn am fynediad at unrhyw ffeiliau a gedwir ar gyfleusterau TG. Gall fynnu hefyd fod unrhyw ddata wedi'i amgryptio ar gael ar ffurf y gellir ei ddarllen.

Ni chaiff unrhyw gamau ymchwiliol o'r fath ragfarnu unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch a oedd amodau wedi'u torri.

18. Monitro'r Rhwydwaith

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Athrofa Padarn Sant ddwyn yr hysbysiadau canlynol at sylw pob defnyddiwr.

18.1 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth y DU, mae Athrofa Padarn Sant yn tynnu sylw holl ddefnyddwyr cyfleusterau TG yr Athrofa at y ffaith y gallai eu deunydd cyfathrebu gael eu rhyng-gipio fel y caniateir yn ôl y ddeddfwriaeth.

Mae'r ddeddfwriaeth (gan gynnwys y Rheoliadau Ymarfer Busnes Cyfreithlon) yn nodi yr awdurdodir rhyng-gipio ar gyfer:

18.1.1 Monitro neu Gofnodi Cyfathrebu:

- Er mwyn sefydlu bodolaeth ffeithiau, er mwyn pennu cydymffurfiaeth ag arferion neu weithdrefnau rheoleiddio neu hunanreoleiddio neu bennu neu ddangos y safonau sy'n cael eu cyflawni neu y dylid eu cyflawni (rheoli ansawdd a hyfforddiant)
- Er budd diogelwch cenedlaethol (os felly dim ond swyddogion cyhoeddus penodol a all ryng-gipio)
- Atal neu ddatgelu troseddau
- Ymchwilio i neu ddatgelu defnydd heb ei awdurdodi o systemau telathrebu; neu
- Diogelu, neu fel rhan gynhenid o, weithrediad system effeithiol

18.1.2 Monitro deunydd cyfathrebu sydd wedi'i dderbyn i bennu a ydynt yn ddeunydd cyfathrebu busnes neu bersonol;

18.1.3 Monitro deunydd cyfathrebu a wnaed i linellau ffôn cymorth dienw.

Nid oes angen caniatâd cyn rhyng-gipio ar yr Athrofa at y dibenion hyn er bod angen i ni hysbysu staff a dysgwyr y gall hyn ddigwydd.

18.2 Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Monitro

Mae Adran TG yr Eglwys yng Nghymru yn dal data ar gofrestru defnyddwyr a gwybodaeth amrywiol am y defnydd o systemau cyfrifiadur a rhwydwaith yr Athrofa; mae hyn yn cynnwys amseroedd mewngofnodi ac allgofnodi, cofnodion argraffu, cofnodion cache y We Fyd-eang a chofnodi trafnidiaeth y rhwydwaith.

Er eu bod ond yn cael eu defnyddio fel arfer i ddatrys problemau gweithredol, bydd y cofnodion hyn yn cael eu dadansoddi i'r defnyddwyr unigol os oes amheuaeth bod y polisi TG wedi'i dorri.

Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio hefyd i gyfathrebu ag unigolion er mwyn eu rhybuddio o gamweithrediadau o fewn cyfleusterau TG yr Athrofa neu i ofyn am gamau i gywiro'r camweithrediadau a allai fod yn peryglu gweithrediad arferol y cyfleusterau TG.

Gallai Adran TG yr Eglwys yng Nghymru ddefnyddio dulliau chwilio â llaw neu awtomatig er mwyn pennu cydymffurfiaeth â thrwyddedau meddalwedd ynghyd â thelerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r defnydd o feddalwedd. Gallai hyn gynnwys

chwilio drwy'r holl raglenni meddalwedd ar gyfarpar TG yr Athrofa yn yr amgylchedd ffisegol a rhithwir. Gellir defnyddio'r data hwn i ymchwilio i achosion o dorri amodau polisi TG Padarn Sant yn ogystal â rheoli cyfleusterau TG yr Athrofa.

Yn ogystal, mae'n bosib y gwneir gwerthusiad ystadegol er mwyn darparu gwybodaeth rheoli ar feddalwedd cyfrifiaduron, printio, cache, rhwydwaith a defnydd cyffredinol at bwrpasau rheoli darpariaeth TGCh yr Athrofa.

18.3 Hidlo Cynnwys y We

Mae'r Adran TG yn hidlo cynnwys y we i'r Athrofa wrth iddo deithio drwy waliau tân yr Athrofa er mwyn diogelu enw da yr Athrofa a sicrhau bod elfen defnydd priodol o ddarpariaeth rhyngrwyd y polisi hwn yn cael ei ddiogelu.

Cofnodi a Mynediad: Bydd yr holl weithgarwch rhyngrwyd yn cael ei gofnodi gan yr Adran TG a bydd y cofnodion yn cael eu cadw am 12 mis. Bydd cofnodion ond yn cael eu harchwilio os oes ymchwiliad i achos o dorri amodau'r polisi. Mae'r system gofnodi yn tynnu sylw'n awtomatig at droseddau o ran y defnydd priodol o ddarpariaeth y rhyngrwyd a amlinellir yn y ddogfen hon. Mae'r baneri tynnu sylw hyn yn nodi defnyddwyr unigol a chaiff hyn ei riportio fel yr amlinellir uchod. Gyda'r eithriad hwn, bydd data lefel uchel a ddarperir gan y cofnodion ar gyfer darparu metrigau at ddibenion gwybodaeth reoli yn cael eu cadw'n ddienw.

19. Offer Fonitro Rhwydwaith DarkTrace

Mae'r adran TGCh yn gwneud defnydd o system fonitro rwydwaith a elwir yn DarkTrace. System artiffisial ddeallus lled – ymreolaethol sy'n monitro ymddygiad defnyddiwr er mwyn didoli beth sy'n baramedr normal ar gyfer gweithrediadau ar gyfer bob cyfrif. Os ydy'r paramedrau arferol yn cael eu torri, er enghraifft drwy ddanfon cyfanswm uchel o e-byst mewn cyfnod byr, mae'r system yn medru gweithredu'n annibynnol heb gyfarwyddyd dynol. Gall hyn gynnwys cloi cyfrifon, colli mynediad i'r wê a blocio gwefannau penodol. Mae hwn yn rhan o amddiffyn rhwydwaith cyffredinol ac mae'r logiau a gynhyrchir gan y system yn dilyn yr un rheolaethau a'r rhai yn adran 17 yn y ddogfen hwn. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol bod y system yn medru gweithredu yn annibynnol tu allan i oriau swyddfa arferol. I ddad-wneud y gweithredoedd hynny bydd angen gweithredu dynol ac felly bydd angen iddo ddigwydd yn ystod y diwrnod gwaith nesaf.